Office for the Internal Market
Part of the Competition and Markets Authority

# Crynodeb Diweddaru Map Ffordd y Strategaeth Data

## Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) o fewn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i gyflawni swyddogaethau ac arfer pwerau a roddwyd i'r CMA o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae'r OIM yn darparu cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gwaith monitro ac adroddiadau i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu'r gyfres o berthnasoedd masnachu rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2. Gall dealltwriaeth fanwl o weithrediad marchnad fewnol y DU fod o gymorth i lunwyr polisi yn y llywodraeth a'r sector preifat wneud penderfyniadau gyda golwg lawnach ar eu heffeithiau posibl ar gadwynau cyflenwi ac, yn y pen draw, ar ddefnyddwyr. I gefnogi'r ddealltwriaeth hon, mae'r OIM wedi llunio ein Map Ffordd ar gyfer y Strategaeth Data a diweddariadau dilynol gyda'r nod o sbarduno gwelliant i'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys drwy ein hadroddiadau.

## Y Cefndir

3. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd yr OIM fersiwn gyntaf Map Ffordd y Strategaeth Data. Mae'r Map Ffordd yn pennu'r mentrau y gwyddom amdanynt sy'n gweithio i wella ein cyd-ddealltwriaeth o'r modd y mae marchnad fewnol y DU yn gweithredu drwy ddata. Mae hyn yn cynnwys gwaith gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), y Llywodraethau Datganoledig, Llywodraeth y DU, academyddion o bob rhan o'r DU a'r OIM.

4. Datblygwyd y Map Ffordd mewn ymateb i'r adroddiad Trosolwg o Farchnad Fewnol y DU a gyhoeddwyd gan yr OIM ym mis Mawrth 2022. Nodai'r adroddiadau gyfyngiadau ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys prinder data ar fasnach rhwng Lloegr a gweddill y DU, gwahaniaethau methodolegol sy'n amharu ar y gallu i gymharu data a gesglir gan wahanol wledydd, a'r oedi rhwng casglu data a'u cyhoeddi.

5. Gwnaethom ymrwymo i adrodd yn flynyddol ar gynnydd y Map Ffordd, ynghylch y mentrau a amlinellwyd yn y fersiwn gyntaf, a hefyd i roi diweddariad am unrhyw brosiectau newydd sydd wedi dechrau neu a gynllunnir. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o Ddiweddariad Map Ffordd 2024.

## Diweddariadau Newydd

6. Ceir isod ddiweddariadau am fentrau allweddol o'r Map Ffordd gwreiddiol, ynghyd â llinellau amser cysylltiedig:

   Allbynnau yn 2023:

(a) Set ddata o daliadau cwmni i gwmni rhwng busnesau yn rhannau o'r DU, yn seiliedig ar ddata systemau talu - Y SYG a Sefydliad Alan Turing (cyhoeddwyd Rhagfyr 2023).

(b) Methodoleg arbrofol ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon masnach ryngranbarthol - SYG, gyda mewnbwn gan y Llywodraethau Datganoledig (cyhoeddwyd Gorffennaf 2023).

Allbynnau yn 2024:

(c) Amcangyfrifon arbrofol o fasnach ryngranbarthol, ar gyfer pedair gwlad y DU - SYG, gyda mewnbwn gan y Llywodraethau Datganoledig.

i. Gan adeiladu ar y fethodoleg arbrofol (menter (b)), mae'r SYG ar y trywydd iawn i gyhoeddi amcangyfrifon cyson o ddata masnach ryngranbarthol ar Lefel Diriogaethol Ryngwladol 1 (ITL 1), gan gwmpasu Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, a naw o ranbarthau yn Lloegr)

ii. Mae'r fethodoleg yn seiliedig ar argymhellion gan y Ganolfan Ragoriaeth Ystadegau Economaidd (ESCoE) ac yn defnyddio Arolwg Parhaus yr Adran Drafnidiaeth (DfT) o Gludo Nwyddau ar Ffyrdd, data Ystadegau Masnachu Tramor CThEF, sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr Busnesau Ryngadrannol, a'r data ar daliadau y cyfeirir atynt uchod.

Allbynnau yn 2024/25:

(d) Allbynnau o'r prosiect 'masnachu mewn gwerth ychwanegol' (TiVA) i ddatblygu data gwell ar integreiddio rhanbarthau'r DU mewn cadwyni gwerth byd-eang - Yr Adran Busnes a Masnach a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan weithio gyda'r SYG.

i. Nod prosiect TiVA yw datblygu gwell data ar gyfranogiad rhanbarthol mewn Cadwyni Gwerth Byd-eang, neu'r prosesau a ddilynir yn rhyngwladol wrth gyflwyno nwyddau neu wasanaeth i'r farchnad. Bydd set ddata TiVA yr OECD yn cynnwys dadansoddiad ar lefel ITL 1 ar gyfer y DU.

7. Mae'r OIM hefyd wedi ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio data presennol i greu darlun o weithrediad marchnad fewnol y DU. Yn rhan o hyn defnyddiwyd Arolwg Mewnwelediadau ac Amodau Busnes (BICS) i gasglu data ynghylch a yw busnesau'n prynu a gwerthu rhwng cenhedloedd y DU, a data tollau CThEF er mwyn deall masnach rhwng Prydain a Gogledd Iwerddon.

8. Rydym hefyd wedi archwilio dangosyddion y tu hwnt i'r data masnach presennol a allai fod o gymorth i feithrin ein dealltwriaeth o farchnad fewnol y DU. Buom yn

ymgysylltu â’r Adran Drafnidiaeth ynghylch defnyddio data cludo llwythi ar y ffordd ac Ofcom ynghylch defnyddio data ar symudiad parseli i gael mewnwelediadau newydd. Mae'r gwaith hwn wedi gwella ein dealltwriaeth o'r dangosyddion posibl hyn; serch hynny, mae'n glir nad oes unrhyw 'enillion cyflym' wrth fonitro marchnad fewnol y DU.

**Edrych i'r Dyfodol**

9. Disgwylir o hyd y bydd amcangyfrifon arbrofol o fasnach o fewn y DU, sy'n cynnwys pob un o'r pedair gwlad, yn cael eu darparu yn nhymor yr hydref 2024, fel y nodwyd ym Map Ffordd y llynedd, ac mae hynny'n gam cadarnhaol pwysig.

10. Bydd Llywodraeth Cymru yn gohirio Arolwg Masnach Cymru ar gyfer blwyddyn gyfeirio 2023, a fyddai wedi cael ei ryddhau yn 2025. Gan hynny, ni fydd modd cynhyrchu amcangyfrifon arbrofol o fasnach ryngranbarthol y DU ar gyfer 2023, felly mae'n bosibl y bydd gennym sylfaen lai o dystiolaeth ynghylch masnach o fewn y DU yn 2025 nag sydd gennym ar hyn o bryd (dim amcangyfrifon cyson, ystadegau masnach ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unig).

11. Rydym yn croesawu’r cydweithio agos parhaus rhwng y SYG a’r pedair llywodraeth, a byddem yn gryf ein cefnogaeth tuag at unrhyw fentrau gan y partneriaid allweddol hyn i fynd i'r afael â'r heriau dan sylw.

12. Bydd yr OIM eleni yn ceisio datblygu dealltwriaeth well o strwythurau busnes a chadwynau cyflenwi, gan gynnwys dylanwad yr elfennau hynny ar y dull o fasnachu nwyddau a gwasanaethau. Nid yw llawer o fusnesau a defnyddwyr yn gweld y farchnad fewnol fel pedair gwlad sy’n masnachu â’i gilydd, a gallai dangosyddion eraill felly amlygu agweddau eraill ar weithrediad y farchnad honno, gan gynnwys rhoi ymdeimlad gwell o lefelau integreiddio. Bydd hyn yn adeiladu ar dystiolaeth gyfredol o BICS ac ymchwil ansoddol a gynhaliwyd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol yr OIM yn 2022-23 ac yn 2023-24.

13. Rydym yn cynnal digwyddiad ym mis Mehefin 2024, a fydd yn dod â rhanddeiliaid o’r llywodraeth, y sector preifat, melinau trafod ac academyddion ynghyd, i drafod ffynonellau newydd posib o dystiolaeth ynghylch gweithrediad marchnad fewnol y DU a thechnegau ar gyfer defnyddio data i fodelu a dadansoddi er mwyn cael dealltwriaeth well o'i gweithrediad.